# Adroddiad Blynyddol

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

**2024 - 2025**



## Neges gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Hoffai aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg fynegi o waelod calon eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n gweithio ar draws y sector addysg, am eu hymroddiad parhaus i gefnogi dysgu a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae eich ymrwymiad yn dal i fod yn amhrisiadwy wrth i ysgolion ffeindio'u ffordd drwy heriau parhaus a chofleidio'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Cwricwlwm i Gymru.

Wrth i ni symud ymhellach i mewn i weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022, mae CYS yn dymuno ailddatgan ei rôl o gefnogi ymarferwyr gyda Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Rydyn ni yma i roi arweiniad ar ddulliau addysgu a dysgu effeithiol, rhannu adnoddau, a chynorthwyo i sefydlu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn fframwaith y cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu ei bwrpas a'i gyfraniad unigryw.

Yn ogystal, mae CYS yn parhau i gynnig cyngor ac adnoddau ar gyfer y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd, gan helpu ysgolion i gynnal yr arferion ystyrlon hyn sy'n cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol dysgwyr.

Cofiwch fod CYS yn bartner i chi ar y daith hon – a'i fod wedi ymrwymo i'ch cefnogi i ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o ansawdd uchel a meithrin profiadau dysgu cynhwysol, adfyfyriol i bawb.

Mae CYS Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn croesawu gohebiaeth trwy'r cysylltiadau isod:

Lisa Hamer, Swyddog Cymorth Busnes
Lisa.Hamer@torfaen.gov.uk
Hayley Jones, Partner Cwricwlwm (CYSau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg) – Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru
hayley.jones@sewaleseas.org.uk

## Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg 2024-205


| CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|
| **ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS** | **5** |
| 1.1 Dyletswydd i Sefydlu | 5 |
| 1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS | 5 |
| 1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS | 5 |
| 1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS | 5 |
| 1.5 Cyfarfodydd | 6 |
| 1.6 Cylchrediad yr Adroddiad | 6 |
| **CRYNODEB O GYNGOR A RODDWYD GAN CYSAG** | 10 |
| **ADRAN 2: CYNGOR AM ADDYSG GREFYDDOL/CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG** | 10 |
| 2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol | 10 |
| 2.2 Safonau mewn AG | 10 |
| 2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon | 10 |
| **ADRAN 3: CYNGOR AM ADDOLI AR Y CYD** | |
| 3.1 Adroddiadau Arolygiadau Ysgolion | 11 |
| 3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau | 11 |
| 3.3 Ymweliadau ag Ysgolion | 11 |

| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN 4: MATERION ERAILL** | | **11** |
| 4.1 | CCYSAGauC | 11 |
| 4.2 | Addysg am yr Holocost | 12 |
| 4.3 | Y Cwricwlwm i Gymru 2022 | 12 |
| 4.4 | Hyfforddi Aelodau CYSAG | 12 |
| 4.5 | Aelodaeth CYSAG | 12 |

| | |
|---|---|
| **ATODIAD 1: Aelodaeth CYSAG Torfaen Hydref 2024 - Haf 2025** | **14** |
| **ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDÂU CYFARFODYDD** | **15** |
| **ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD** | **16** |

# Adroddiad Blynyddol Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg 2024-2025

## ADRAN 1: GWYBODAETH AM CYSAG/CYS

### 1.1 Dyletswydd i Sefydlu CYSAG/CYS

Mae gofyn i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS) yn eu hardal leol o dan adran 390 Deddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Bydd rhai o hen swyddogaethau CYSAG yn cael eu cyflawni gan CYS tra bydd y maes llafur ar gyfer y cyfnod cyn y cwricwlwm newydd i Gymru 2022 yn raddol ddiflannu.

### 1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS

Mae angen y gynrychiolaeth ganlynol ar CYSAG/CYS: -

(i) Enwadau Cristnogol ac enwadau crefyddol eraill a chredoau athronyddol digrefydd eraill fel, a fydd, ym marn yr Awdurdod Lleol, yn adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal mewn ffordd briodol. Er 2018, ar gyfarwyddyd Aelod Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, gall dyneiddwyr fod yn aelodau llawn o'r Pwyllgor hwn yn ogystal â grwpiau credoau eraill sy'n cyfateb i gredoau crefyddol;

(ii) Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon;

(iii) Cynrychiolwyr yr awdurdod lleol.

Penderfynodd y Awdurdod Lleol y dylai CYSAG/CYS gynnwys chwe aelod etholedig, saith corff sy'n cynrychioli crefydd a chred, a saith cynrychiolydd cymdeithasau athrawon. Yn ogystal, caniataodd yr Awdurdod i ddau unigolyn arall gael eu cyfethol i'r Pwyllgor yn ystod mis Mehefin 2023.

### 1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS

Mae'r rhestr aelodaeth sy'n dangos y sefyllfa ar gyfer y cyfnod o fis Medi 2024 i fis Awst 2025 yn atodol yn Atodiad 1.

Mae CYSAG yn parhau i ymdrechu i geisio cynrychiolaeth ehangach gan sefydliadau crefyddol heblaw am Gristnogaeth. Ar hyn o bryd mae'r ALl yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer seddi gwag ar y grŵp hwn.

O ran Pwyllgor B, mae CYSAG/CYS wrthi'n cysylltu ag ysgolion i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer y seddau gwag ar y pwyllgor

Mae CYSAG/CYS Torfaen wedi dyrannu dwy sedd gyfetholedig i gynrychiolwyr ieuenctid ac mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r seddau hyn. Mae CYSAG/CYS yn edrych ymlaen at weld pobl ifanc yn ymuno â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) yn y dyfodol er mwyn cynnwys llais y dysgwr.

### 1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS

- Cynghori'r awdurdod lleol am addoli, addysg grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w darparu yn unol â'r maes llafur cytûn gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor am ddeunyddiau a hyfforddiant i athrawon

- Ystyried a ddylid argymell bod yr awdurdod lleol yn adolygu ei faes llafur presennol trwy gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytûn.

- Ystyried a ddylid amrywio'r gofyniad y dylai addoliad crefyddol mewn ysgol sirol fod yn 'lled Gristnogol ei natur' (penderfyniadau)

- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru am ei gweithgareddau

**1.5 Cyfarfodydd**

Cyfarfu CYSAG/CYS ar dri achlysur yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025.

**Tymor yr Hydref: 5 Tachwedd 2024 am 10:00am**
**Tymor y Gwanwyn: 27 Mawrth 2025 am 10:00am**
**Tymor yr Haf: 10 Mehefin 2025 am 10:00am**

Roedd pob un o'r tri chyfarfod yn gyfarfod hybrid yn ystod 2024-2025.

**1.6 Cylchrediad yr Adroddiad**

Caiff copïau o'r adroddiad eu dosbarthu'n electronig i'r cyrff a'r sefydliadau hynny a restrir yn Atodiad 3. Mae hefyd ar gael ar wefannau'r Awdurdod Lleol a Chymdeithas CCYSAGauC.

**CRYNODEB O GYNGOR A RODDWYD GAN CYSAG/SAC**

Crynodeb o'r cyngor a roddwyd i'r awdurdod lleol gan CYSAG/CYS

**ADDYSG GREFYDDOL/ CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG**

**Mater**

Monitro'r ddarpariaeth a'r safonau mewn AG/CGM

**Cam Gweithredu**

1. Mae CYSAG/CYS yn ystyried adroddiadau arolygiadau ysgolion ac yn eu dadansoddi. Os oes unrhyw faterion o ran AG/CGM, er enghraifft methu â chyflawni gofynion statudol, yna bydd yr ALl yn cymryd camau dilynol.
2. Mae CYSAG/CYS yn ymweld ag ysgolion yn flynyddol i gael cyflwyniad am AG/CGM. Yn ystod 2024-25, ni ymwelodd CYSAG/CYS ag unrhyw ysgolion, fodd bynnag, rhannodd ysgolion gyflwyniadau mewn cyfarfodydd.

**Mater**

Bodloni'r gofyniad cyfreithiol i adolygu'r maes llafur cytûn ar gyfer AG/CGM bob pum mlynedd a sicrhau bod ysgolion yn rhoi'r maes llafur cytûn ar waith.

**Cam Gweithredu**

1. Yn 2008 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn faes llafur cytûn newydd a'i fabwysiadu ar gyfer ysgolion yr awdurdod, i'w weithredu o fis Medi 2008. Ym mis Mehefin 2013 cymeradwyodd y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ail-fabwysiadu'r maes llafur cytûn i Dorfaen ar gyfer Addysg Grefyddol, ar y ddealltwriaeth y byddai'r maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y byddai gwybodaeth bellach yn dod i law ynglŷn â'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r

asesiad.

2. Derbyniodd CYSAG (fel yr oedd ar y pryd) ddiweddariadau trwy e-bost ac, yn ystod cyfarfodydd bob tymor, am ddatblygiadau gydag arweinwyr y Cwricwlwm a Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

3. Yn ystod 2020-2021 ymatebodd CYSAG i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am Ganllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.

4. Ar ôl cyhoeddi'r canllawiau CGM, cynghorodd CYSAG yr awdurdod lleol i alw cynhadledd Maes Llafur Cytûn lle trafodwyd mabwysiadu'r fframwaith neu ei addasu, fel Maes Llafur Cytûn ar gyfer Torfaen.

5. Mabwysiadodd yr Awdurdod Lleol y Maes Llafur Cytûn newydd wedyn ym mis Mehefin 2022, a dosbarthwyd y ddogfen ymhlith yr holl ysgolion ym mis Gorffennaf 2022 cyn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd ym mis Medi 2022.

## DEUNYDDIAU ADDYSGU

### Mater

Sicrhau bod ysgolion yn cael gwybod am adnoddau addas ar gyfer AG/CGM

### Cam Gweithredu

Danfonwyd y wybodaeth a'r adnoddau canlynol i ysgolion a danfonwyd copi o'r wybodaeth i Aelodau CYSAG/CYS hefyd:

1. Cafodd ysgolion wybod am Wythnos Rhyng-ffydd 2024 (10-17 Tachwedd) a dangoswyd y ffordd iddynt at adnoddau gan gynnwys cynlluniau gwersi a deunyddiau ar gyfer addoli ar y cyd ar www.interfaithweek.org.

2. Cafodd ysgolion wybod am thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2025, 'Dros Ddyfodol Gwell', gyda mynediad at adnoddau a oedd yn addas i oedrannau penodol ar www.hmd.org.uk.

3. Parhaodd CCYSAGauC i ddarparu adnoddau a chyngor ar gyfer AG, CGM ac addoli ar y cyd a ddosbarthwyd ymhlith ysgolion trwy CYSAG

4. Cafodd ysgolion wybod am ymgynghoriadau a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r Dyniaethau a CGM

5. Rhannwyd Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr y Cwricwlwm a chynigion o gymorth gyda phob ysgol trwy Rwydwaith Dyniaethau'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

6. Danfonwyd gwybodaeth am Ysgoloriaethau Farmington 2024-2025 i bob ysgol a'u trafod yng nghyfarfodydd CYSAG

## DYSGU PROFFESIYNOL I ATHRAWON

### Mater
Sicrhau bod athrawon yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol.

**Cam Gweithredu**
Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i adeiladu ar yr egwyddor o gyfrifolaeth, gan roi'r hyblygrwydd i ysgolion ddylunio eu cwricwlwm eu hunain. Er mwyn cefnogi hyn, mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi cynnig dewis eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon ar draws y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar rannu arfer effeithiol a grymuso ymarferwyr.

Darparodd Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a CYSAG/CYSau hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig a hyfforddiant yn benodol i bwnc mewn Astudiaethau Crefyddol, i athrawon ysgolion uwchradd.

Yn ystod 2024–2025, cyflwynwyd dysgu proffesiynol yn benodol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymarferwyr cynradd ac uwchradd. Darparwyd hyn trwy Ysgolion Partner, cyfarfodydd rhwydwaith y Dyniaethau, a chefnogaeth gan Bartner y Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar:

- Weithredu'r Cwricwlwm i Gymru 2022
- Dyluniad y Cwricwlwm ac addysgeg
- Newidiadau deddfwriaethol a oedd yn gysylltiedig â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Cynhaliwyd sesiynau briffio i benaethiaid hefyd, fel cymorth i ysgolion ddeall:
    - Statws mandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
    - Sut y mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi esblygu o fewn Y Cwricwlwm i Gymru
    - Ystyriaethau cynllunio a gweithredu allweddol sy'n gysylltiedig â'r fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd

Diweddariadau Cenedlaethol a Rhanbarthol (2024–2025)

Wythnos Rhyng-ffydd 2025
Cafodd ysgolion wybod am Wythnos Rhyng-ffydd 2025 (dydd Sul 9-16 Tachwedd) a dangoswyd y ffordd iddynt at adnoddau trwy www.interfaithweek.org, gan gynnwys cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, a deunyddiau ar gyfer addoli ar y cyd a oedd yn addas i ddysgwyr o oed cynradd hyd at addysg ôl-16. Anogwyd ysgolion i ymgysylltu â'r adnoddau a rhannu eu cyfranogiad a chanlyniadau disgyblion gyda CYSAG/CYS.

Diwrnod Cofio'r Holocost 2024
Hysbyswyd ysgolion am thema 2024, 'Dros Ddyfodol Gwell', a rhoddwyd amrywiaeth o adnoddau iddynt a oedd yn briodol i'w hoedran, ar www.hmd.org.uk, gan gynnwys cynlluniau gwersi, clipiau ffilm, gwasanaethau a thaflenni gwaith. Anogodd CYSAG/CYS ysgolion i rannu sut y defnyddiwyd y deunyddiau hyn a'r budd a gafodd dysgwyr o'r profiad.

Cymorth CCYSAGauC
Parhaodd CCYSAGauC i roi arweiniad ac adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac addoli ar y cyd. Dosbarthwyd y rhain ymhlith ysgolion trwy CYSAG/CYS.

Diweddariadau Llywodraeth Cymru
Cafodd ysgolion eu diweddaru am ymgynghoriadau, canllawiau a chyhoeddiadau perthnasol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Dyniaethau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Cymorth i Ddylunio'r Cwricwlwm
Parhaodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg i gefnogi'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm ar draws y rhanbarth, gyda ffocws penodol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn rhan o hyn, darparwyd adnoddau, enghreifftiau ac arweiniad i ysgolion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ystyrlon a fyddai'n berthnasol i'r ardal leol. Rhannwyd deunyddiau trwy rwydweithiau rhanbarthol.

Modiwlau Dysgu Proffesiynol CCYSAGauC
Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, comisiynodd CCYSAGauC gyfres o fodiwlau dysgu proffesiynol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Y Cwricwlwm i Gymru. Yn 2025,

cyflwynwyd modiwl newydd yn benodol ar gyfer llywodraethwyr ysgolion, gan roi arweiniad am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nod yr adnoddau hyn yw magu hyder ymarferwyr, hyrwyddo darpariaeth o ansawdd uchel, a sicrhau bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystyrlon ac yn berthnasol yn lleol i bob dysgwr yng Nghymru.

## ADDOLI AR Y CYD

### Mater

Sicrhau bod ysgolion yn bodloni gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn darparu profiad gwerth chweil i ddisgyblion.

### Cam Gweithredu

1. Mae CYSAG/CYS yn monitro adrannau adroddiadau arolygiadau sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol.
2. Bydd yr ALl yn dilyn i fyny ar unrhyw achosion o beidio â chyflawni gofynion statudol trwy ofyn am eu cynllun gweithredu.
3. Yn ystod 2024-2025 ni nododd Estyn unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion statudol.
4. Lle mae arolygiadau wedi digwydd, adroddir bod sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn datblygu'n dda, a bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu dealltwriaeth dda am gredoau ysbrydol a moesegol trwy wasanaethau, amser i fyfyrio, a chymharu crefyddau a chredoau gwahanol.
5. Mae ysgolion wedi cael gwybod gan CYSAG/CYS am adnoddau a gwefannau priodol sy'n cefnogi addoli ar y cyd mewn ysgolion e.e., Diwrnod Cofio’r Holocost 2025.
   Bydd CYSAG/CYS yn parhau i ymweld ag ysgolion yn yr ALl i arsylwi ar weithredoedd o addoli ar y cyd, a monitro sut y maent yn cyflawni gofynion statudol, y ddarpariaeth ac ansawdd yn ystod 2025-2026

## MATERION ERAILL:

**Nod:** Sicrhau CYSAG/CYS sy’n fwy gwybodus trwy roi diweddariadau rheolaidd am faterion lleol a chenedlaethol

Mae CYSAG/CYS yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGauC, ac yn cael adborth bob tymor o gyfarfodydd y gymdeithas. Mae Partner Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cynrychioli CYSAG/CYS ar y Panel Cynghori Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (NAPfRE), gan sicrhau bod safbwyntiau cenedlaethol yn cael eu rhannu’n lleol. Mae aelodau'n cael hyfforddiant rheolaidd i gadw ar flaen newidiadau deddfwriaethol ac addysgol ac i ddeall eu rôl. Mae CYSAG/CYS hefyd yn rhoi cyngor am Addysg am yr Holocost i'r awdurdod lleol a'i ysgolion.

Trwy gydol 2024–2025, cafodd CYSAG/CYS y wybodaeth ddiweddaraf am Y Cwricwlwm i Gymru a'r goblygiadau i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnig 14–16 Cymwysterau Cymru.

## ADRAN 2: CYNGOR AM ADDYSG GREFYDDOL/CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

### 2.1 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)

Galwodd Awdurdod Lleol Torfaen Gynhadledd Maes Llafur Cytûn (CMLIC), a argymhellodd fabwysiadu'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sylfaen ar gyfer y Maes Llafur Cytûn Lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Adolygwyd y ddogfen i adlewyrchu maes llafur penodol Torfaen. Serch hynny, bydd disgyblion Blwyddyn 10 ac uwch yn parhau i ddilyn yr hen Cwricwlwm i Gymru 2008 ar gyfer Addysg Grefyddol trwy gydol gweddill eu haddysg uwchradd, hyd nes bod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno'n llwyr.

### 2.2 Safonau mewn AG/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae CYASG/CYS wedi mabwysiadu nifer o strategaethau i fonitro safonau mewn Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws ysgolion Torfaen:

- **Adroddiadau Estyn**: Mae CYSAG/CYS yn adolygu adroddiadau arolygiadau Estyn, gan ganolbwyntio ar sylwadau sy'n gysylltiedig â datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol. Os nad yw'r gofynion statudol yn cael eu bodloni, mae'r awdurdod lleol yn gofyn am gynllun datblygu.
- **Perfformiad mewn Arholiadau**: Oherwydd newidiadau yn y dull o adrodd am ddata, mae'r ALl, Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ac ysgolion nawr yn cydweithio'n agos i nodi anghenion cymorth.
- **Diweddariadau am y Cwricwlwm ac Arholiadau**: Mae ysgolion yn cael eu diweddaru am newidiadau i TGAU a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol trwy gyfarfodydd ymarferwyr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Rhennir adborth a phryderon gyda CYSAG/CYS, CCYSAGauC, NAPfRE, a CBAC.
- **Monitro yn y Dyfodol**: Yn 2025–2026, bydd CYSAG/CYS yn parhau i archwilio ffyrdd effeithiol i'r ALl ddarparu mewnwelediadau ystyrlon i ansawdd Addysg Grefyddol, Astudiaethau Crefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- **Cyd-destun Cenedlaethol**: Mae CYSAG/CYS wedi cael eu briffio am heriau cenedlaethol, gan gynnwys gostyngiad yn y niferoedd sy'n sefyll arholiadau Addysg Grefyddol/Astudiaethau Crefyddol. Mae'r pryderon hyn, ynghyd â'r diweddariadau gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr, wedi'u rhannu â CCYSAGauC a NAPfRE.

### 2.3 Dulliau Addysgu, Deunyddiau Addysgu a Hyfforddiant Athrawon

**Dysgu Proffesiynol**

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad i ysgolion am addysgeg ac adnoddau. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi darparu dewis o raglenni, deunyddiau a dulliau dysgu proffesiynol sydd wedi cael eu rhannu gydag ysgolion yn y rhanbarth. Mae'r holl gyrsiau yn cael eu hysbysebu trwy wefan Cefnogi Ein Hysgolion.

**Ysgolion Partner ar gyfer Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Yn 2024–2025, rhoddodd y Partner Cwricwlwm gymorth wedi'i deilwra ar gyfer Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws Torfaen. Cafodd ysgolion arweiniad i ddyfnhau eu dealltwriaeth am y Cwricwlwm i Gymru ac i gynllunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r Maes Dyniaethau.

Buddsoddodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg mewn dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a chymorth yn yr ysgol, gan gynnwys cyd-ddylunio'r cwricwlwm o 3 i 16 oed. Roedd hyn yn gymorth i ysgolion i gyd-greu modelau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n seiliedig ar ddilyniant ac sy'n adlewyrchu cyd-destunau lleol ac anghenion dysgwyr, gan gryfhau perchnogaeth dros y cwricwlwm, addysgeg ac arweinyddiaeth.

Mae'r dull hwn nawr yn sbardun allweddol ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm, ac yn gefnogi ysgolion i fodloni disgwyliadau cenedlaethol ynghylch atebolrwydd, hunanwerthuso, a dysgu proffesiynol. Dangoswyd y ffordd i ymarferwyr hefyd at adnoddau a hyfforddiant y Gwasanaeth Cyflawni Addysg er mwyn magu hyder a chysondeb wrth ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o ansawdd uchel.

**Ysgolion Partner ar gyfer Addysg Grefyddol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae'r Ysgol Bartner ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi parhau â'i hymdrechion trwy gydol 2024-2025. Mae ei harweiniad a'i chefnogaeth, ynghyd â chydweithrediad rhwng CYSAG/CYS a NAPfRE, wedi'u rhannu ag athrawon Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Deunyddiau Addysgu**

Mae CYSAG/CYS wedi rhannu amrywiaeth o adnoddau addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gydag ysgolion Torfaen:

- **Ysgoloriaethau Farmington**: rhoddwyd gwybodaeth am Ysgoloriaethau diweddaraf Farmington, sy'n cynnig datblygiad proffesiynol am ddim i athrawon Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws y DU.

- **Diwrnod Cofio'r Holocost 2025**: anogodd CYSAG/CYS ysgolion i nodi'r achlysur a rhannodd fanylion y thema ac adnoddau addysgol am ddim sydd ar gael ar wefan Diwrnod Cofio'r Holocost.

- **Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (JHASW):** rhannodd CYSAG/CYS ddolenni i adnoddau addysgol dwyieithog am yr Holocost a ddatblygwyd gan JHASW/CHIDC, gan gynnwys deunyddiau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a nodiadau canllaw. Cyflwynwyd athrawon i'r adnoddau hyn trwy sesiwn hyfforddi arbennig.

- **Cylchlythyr Dyniaethau y Gwasanaeth Cyflawni Addysg**: mae'r cylchlythyr a ddosberthir bob tymor i bob ysgol yn cynnwys diweddariadau am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, strategaethau addysgu, a gweithgareddau CYSAG/CYS.

## ADRAN 3: CYNGOR AM ADDOLI AR Y CYD

### 3.1 Adroddiadau Arolygiadau Ysgolion

Mae CYSAG/CYS yn adolygu adroddiadau arolygiadau Estyn Torfaen yn rheolaidd. Mae CYSAG/CYS wedi penderfynu parhau i ddefnyddio'r adroddiadau hyn i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol ac i ystyried sylwadau perthnasol.

### 3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau

Ni chafwyd unrhyw geisiadau gan ysgolion i benderfyniadau gael eu gwneud am godi'r gofyniad i addoli ar y cyd i fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur led-Gristnogol.

### 3.3 Ymweliadau ag Ysgolion

Mae CYSAG/CYS yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a roddir i aelodau i arsylwi gweithredoedd o addoli ar y cyd mewn ysgolion. Ni chafodd aelodau gyfle i gynnal cyfarfod CYSAG/CYS mewn ysgol nac arsylwi ar weithred o addoli ar y cyd yn ystod 2024-2025.

Er nad oedd ymweliadau wyneb yn wyneb yn bosibl eleni, roedd CYSAG/CYS yn falch o gael cyflwyniadau gan gyfranwyr gwahanol, gan dynnu sylw at waith a gweithgareddau coffáu ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost, yn ogystal â gwasanaethau a gynhaliwyd i nodi'r achlysur pwysig hwn. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn arddangos cynllunio meddylgar a gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â

Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddangos ffyrdd difyr o sefydlu’r themâu hyn o fewn profiadau dysgu.

## ADRAN 4: MATERION ERAILL

### 4.1 Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CCYSAGauC )

Mae CYSAG/CYS Torfaen yn dal i gynnal ei chysylltiad â CCYSAGauC. Mae cynrychiolwyr wedi chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd CCYSAGauC trwy gydol blwyddyn academaidd 2024–2025. Mae'r materion allweddol a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn wedi cael eu hadrodd yn ôl i CYSAG/CYS, a chafwyd trafodaethau dilynol i ystyried eu goblygiadau. Mae CYSAG/CYS yn gwerthfawrogi'r rôl ragweithiol y mae CCYSAGauC yn ei chwarae wrth gefnogi Addysg Grefyddol/Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a sicrhau bod aelodau CYSAG/CYS yn wybodus. Cafwyd diweddariadau rheolaidd gan Mrs Jones a chynrychiolwyr eraill a oedd yn bresennol.

### 4.2 Addysg am yr Holocost

**Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2025: 'Dros Ddyfodol Gwell'**
Nododd Cyngor Torfaen Ddiwrnod Cofio'r Holocost 2025 trwy gyfres o weithgareddau effeithiol a gynlluniwyd i annog coffadwriaeth ac addysgu. Roedd y rhain yn cynnwys gweminar fyw gyda goroeswr yr Holocost, Eva Clarke, a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Addysg am yr Holocost, a alluogodd ddisgyblion ar draws Torfaen ac awdurdodau cyfagos i glywed ei thystiolaeth bwerus. Trefnodd y Cyngor hefyd gystadleuaeth gelf a barddoniaeth ar y thema "Dros Ddyfodol Gwell," gan annog myfyrio creadigol ymhlith dysgwyr, a goleuwyd y Ganolfan Ddinesig ym Mhont-y-pŵl yn borffor fel gweithred symbolaidd o gofio. Yn ogystal, hyrwyddodd Torfaen bodlediad Valleys Voices a oedd yn cynnwys y goroeswr Harry Spiro a'i ferch, gan atgyfnerthu ymhellach bwysigrwydd gwytnwch a dysgu o hanes. Mae'r mentrau hyn yn dangos ymrwymiad Torfaen i feithrin dealltwriaeth, goddefgarwch a pharch trwy ymgysylltu’n ystyrlon ag Addysg am yr Holocost.

Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost 2026, bydd CYSAG/CYS yn cysylltu â phob ysgol i annog cyfranogiad mewn gweithgareddau cofio. Bydd ysgolion yn cael gwybodaeth am y thema a mynediad at adnoddau addysgol am ddim.

### 4.3 Y Cwricwlwm i Gymru 2022
Mae CYSAG/CYS yn dal i gael diweddariadau rheolaidd am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn Y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r diweddariadau hyn yn goleuo trafodaethau parhaus ac yn cefnogi rôl gynghorol CYSAG/CYS.

### 4.4 Hyfforddi Aelodau CYSAG
Mae hyfforddiant i aelodau CYSAG/CYS am eu rolau a'u cyfrifoldebau yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd y rhaglen hon yn parhau i mewn i'r flwyddyn academaidd 2025–2026 i sicrhau bod aelodau wedi'u harfogi’n dda i gyflawni eu dyletswyddau.

### 4.5 AELODAETH CYSAG

Mae'r rhestr aelodaeth gyfredol sy'n dangos y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2025 wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Mae'r seddau canlynol yn wag ar hyn o bryd:

**Seddau cyfetholedig** – mae gan CYSAG/CYS ddau gynrychiolydd cyfetholedig ar y Pwyllgor ac un sedd wag.

**Pwyllgor A** – Mae gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r seddau gwag sy'n weddill.

**Pwyllgor B** – Mae dwy sedd yn wag o hyd ar gyfer Cynrychiolydd NASUWT ac NEU. Mae CYSAG/CYS yn y broses o ysgrifennu at ysgolion i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb er mwyn llenwi'r seddau hyn.

## 4.6 CYMORTH PROFFESIYNOL I CYSAG/CYS TORFAEN

Mae Mrs Hayley Jones**,** Partner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer CYSau a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn rhoi cymorth proffesiynol i CYSAG/CYS Torfaen a Dysgu Proffesiynol ar gyfer ysgolion ar draws Torfaen.

Mae Lisa Hamer yn Glerc i CYSAG/CYS, ac mae'r Aelodau'n ddiolchgar iawn am waith Mrs Lloyds sy'n hanfodol i weithrediad effeithiol ac effeithlon CYSAG/CYS Torfaen.

## ATODIAD 1: DIWEDDARIAD AM AELODAETH CYSAG/CYS TORFAEN YM MIS GORFFENNAF 2024

**CRISTNOGION AC ENWADAU CREFYDDOL ERAILL – PWYLLGOR A**
Isaac Harrison (Catholig)
Elizabeth Thomas (Yr Eglwys yng Nghymru)
Phillip Middleton (Dyneiddwyr Cymru)

Sedd wag - Yr Eglwys Fethodistaidd
Sedd wag - crefydd/grŵp ffydd nad yw'n Gristnogol
Sedd wag - Byddin yr Iachawdwriaeth
Sedd wag - Bedyddwyr

**CYMDEITHASAU ATHRAWON – PWYLLGOR B**

**Ysgolion Cynradd**
Anna Britten (NAHT)

**Ysgolion Uwchradd**
Laura de Cruz (NASUWT) (Cadeirydd)
Sam McDermott (NEU) (Is-gadeirydd)
Hannah Howells (UCAC)
Anthony Ager (ASCL)

Sedd wag - Cynrychiolydd NASUWT
Sedd wag – Cynrychiolydd NAHT
Sedd wag - Cynrychiolydd NUT x 2

**YR AWDURDOD LLEOL – PWYLLGOR C**
Y Cynghorydd A. Best
Y Cynghorydd L. Williams
Y Cynghorydd J. Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG**
Rhiannon Bennett - Swyddog Cyfranogiad ac Ymchwil
Sedd wag - Cynrychiolydd ieuenctid

**SWYDDOGION**
Mr Andy Rothwell (Pennaeth Cynorthwyol Addysg (Dysgu))
Alison Dally (Swyddog Ysgolion Iach ac ABCh)
Mrs Hayley Jones (GCA - Partner Cwricwlwm (CYSau a CGM)

**CLERC CYSAG**
Lisa Hamer (Swyddog Cymorth Busnes)
E-bost: Lisa.Hamer@torfaen.gov.uk

## ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDÂU CYFARFODYDD

**Cyfarfod CYSAG/CYS ar CGM Torfaen**
**Tymor yr Hydref: 7 Tachwedd 2024 am 10:00am, Hybrid**

- Croeso ac Ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi.
- Y Diweddaraf am Aelodaeth
- Adroddiad Blynyddol
- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Y Diweddaraf gan Bartner CGM y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Dysgu Proffesiynol
- Ysgoloriaeth Farmington
- Y Diweddaraf gan CBAC
- Amserlen Cyfarfodydd 2024/2025.
- CCYSAGauC
    - Adborth o Gyfarfod Tymor yr Haf rhithwir CCYSAGauC
      Adborth o Gyfarfod Tymor yr Hydref rhithwir CCYSAGauC

**Cyfarfod CYSAG/CYS ar CGM Torfaen**
**Tymor y Gwanwyn: 27 Mawrth 2025 am 10:00am, Hybrid**

- Croeso ac Ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi.
- Rhannu Digwyddiadau Coffa Diwrnod Cofio'r Holocost
- Y Diweddaraf gan Gynghorydd AG y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gan gynnwys:
    - Hyfforddiant i Aelodau CYS (Fideo Rhestr Chwarae)
    - Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg – Dysgu Proffesiynol
    - Y Diweddaraf am y Fforwm Ieuenctid
    - Rhestrau Chwarae CGM CCYSAGauC
    - Cymwysterau
    - Diweddariadau am Arolygiadau Estyn
- Amserlen Cyfarfodydd.
- CCYSAGauC
    - Adborth o Gyfarfod Tymor yr Hydref rhithwir CCYSAGauC
      Adborth o Gyfarfod Tymor y Gwanwyn rhithwir CCYSAGauC
    - Pleidleisio dros Swyddogion Gweithredol 2025 - CCYSAGauC Etholiadau'r Pwyllgor Gweithredol

**Cyfarfod CYSAG/CYS ar GGM Torfaen**
**Tymor yr Haf: 10 Mehefin 2025 am 10:00am, Hybrid**

- Croeso ac Ymddiheuriadau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi.
- Rhannu'r Diweddaraf am 'Brosiect y Rheol Aur'
- Y Diweddaraf am CYSAG Ieuenctid
- Y Diweddaraf gan Gynghorydd CGM/AG y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Amserlen Cyfarfodydd 2025/26.
- CCYSAGauC
    - Adborth o Gyfarfod Tymor y Gwanwyn rhithwir CCYSAGauC

## ATODIAD 3: CYLCHREDIAD YR ADRODDIAD

***Bydd copïau'n cael eu danfon yn electronig at y cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC i'w lawrlwytho gan y rheiny sydd â diddordeb.***

Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg Cyngor Torfaen

Pob aelod o CYSAG/CYS Torfaen

Cyfarwyddwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) De-ddwyrain Cymru

Swyddog Addysg Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Addysg Grefyddol

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llywodraeth Cymru

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Ysgol yn y Fwrdeistref Sirol

Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob Coleg Trydyddol yn y Fwrdeistref Sirol

Pob CYSAG/CYS yng Nghymru

Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

ESTYN